**PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, W. I. Hughes, Eric Jones, R. Dylan Jones, Eric Roberts, P. S. Rogers, H. W. Thomas, Ieuan Williams, John Penri Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen (GM)<br>Rheolydd Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr W. T. Hughes, R. Dylan Jones,<br>Y Comisiynydd Byron Davies |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Gareth Jones,<br>Y Cynghorwyr K. P. Hughes a J. Chorlton – Aelodau Portffolio |

---

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Swyddog neu Aelod.

## 2 COFNODION

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref fel rhai cywir. Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd fel rhai cywir yn amodol ar newid ar Dudalen 2, paragraff 4 i ddarllen "....gostwng *"y cynnydd"* yn y Dreth Gyngor".

## 3 STRATEGAETH GYLLIDEBOL 2012/2013

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar ran y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ynghylch Datganiad a Strategaeth Gyllidebol y Comisiynwyr a oedd yn nodi canllawiau cychwynnol y Comisiynwyr ar gyfer cyllideb 2012/13 fel sail ar gyfer gweithredu gan swyddogion ac ymgynghori gydag aelodau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym Mawrth 2012.

Dygodd y Prif Weithredwr sylw at Amcanion Polisi'r Comisiynwyr sy'n cydnabod yr angen i'r Cyngor gryfhau'r pwyslais ar Ddatblygu Economaidd a Thwristiaeth gyda threfniadau rheoli yn cael eu hadolygu i gefnogi a manteisio ar y statws Parth Menter y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ganiatáu. Cyfeiriodd hefyd at farn y Comisiynwyr bod angen i'r canol corfforaethol fod yn rhan gref o'r broses newid a hynny er mwyn gwella llywodraethiad corfforaethol. O'r herwydd, byddai capasiti a gallu'r canol corfforaethol yn cael eu hadolygu i roi sylw i weithredu mwy effeithiol ar lefel swyddogion yn y meysydd polisi, gwasanaethau democrataidd, AD, cyllid, cyfreithiol, TGCh, eiddo, datblygu economaidd a thwristiaeth, cydweithio, partneriaethau a chomisiynu o'r sector cyhoeddus/preifat.

Dywedodd y byddai'r Comisiynwyr yn gwneud pob ymdrech i gyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i'r eithaf.

Nododd yr Aelodau y camau sy'n cael eu cymryd i egluro targedau cyllidebol gan gynnwys targed arbedion 5% fesul cyfadran. Byddai'r Comisiynwyr yn herio canlyniadau'r arbedion 5% hynny a nodwyd y byddai angen rhesymau cryf dros unrhyw argymhellion ar gyfer toriadau. Daeth y Prif Weithredwr i ben trwy ddweud bod y sefyllfa ariannol yn hynod gymhleth a heriol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y dylai'r setliad terfynol fod yn hysbys yn hwyrach yn y dydd ac felly gellid asesu'r sefyllfa yn gywirach. Roedd y mater ynghylch a fyddai 'llawr' hefyd yn bwysig - roedd y Cyngor wedi ymateb i Lywodraeth Cymru, gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ynghylch y mater 'llawr' ond roedd yn ymddangos bod canlyniad cadarnhaol yn annhebygol. Cyfeiriodd y Swyddog at rai toriadau mewn cyllid grant ac at oblygiadau rhyddhau arian o'r cronfeydd wrth gefn. Gofynnodd bod unrhyw geisiadau gan aelodau am wybodaeth benodol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Cyllid ar fyrder fel bod modd cael digon o amser i gasglu'r wybodaeth mewn ymateb.

Cyfeiriodd y Rheolydd Sgriwtini at yr amserlen ar gyfer y ddau Bwyllgor Sgriwtini nesaf a phwysleisiodd yr angen i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau / pryderon a fo ganddynt am y gyllideb i'r Swyddogion Cymorth Sgriwtini yn ddi-oed.

Cydnabu'r Comisiynydd Gareth Jones fewnbwn y Comisiynydd Byron Davies, Swyddogion yr Adran Gyllid ac Uchel Swyddogion eraill a oedd wedi cyfrannu at y ddogfen a gyflwynwyd i'r Aelodau. Roedd yn credu y gallai'r strategaeth a gynigir gynnal safonau a gwasanaethau. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfraniad yr aelodau a rhoddodd sicrwydd y byddai'n gwrando ar eu sylwadau. Gofynnodd i'r aelodau ganolbwyntio ar y sefyllfa ariannol rhwng rŵan a mis Chwefror nesaf ac ar sut y gellid cyflawni'r gyllideb yn 2012/13.

Cododd yr aelodau nifer o faterion y cafwyd ymateb iddynt gan y Swyddogion gan gynnwys:-

- Dylid gofyn i adrannau nodi toriadau 10% a 15% a chanlyniadau gwneud hynny dros gyfnod 2 i 3 blynedd.
- Rhoi sylw i ddefnyddio'r Parth Menter mewn mwy nag un ardal ar yr Ynys.
- Datblygu Treftadaeth Ddiwydiannol ac Arforol yr Ynys.
- Ail-leoli staff ar draws awdurdodau eraill – ailhyfforddi staff.
- Codwyd cwestiynau ynghylch cost cryfhau capasiti corfforaethol.
- Pa bryd fyddai'r broses Arfarnu Swyddi yn ailddechrau.
- Roedd cyflogi Ymgynghorwyr a Staff Asiantaeth yn destun pryder.
- Dylid ystyried cyllidebu ar sail sero – dylid adolygu cyllid adrannol yn rheolaidd.
- Faint o arian ychwanegol fyddai'n cael ei ddyrannu ar gyfer Datblygu Economaidd a Thwristiaeth – angen sicrhau gwerth am arian.
- Dylai'r pwyslais fod ar beidio â chynyddu costau gwasanaethau lle profwyd bod angen amdanynt – dylid codi prisiau gwasanaethau anstatudol ymhellach i wneud iawn am hynny.
- Eiddo gweigion e.e. tai wardeiniaid – risg tân/risg yswiriant.
- Biliau ynni – gosod paneli heulol yn y canolfannau hamdden.
- Cau canolfan hamdden am ddiwrnod neu ddau bob wythnos i ostwng costau.
- Diogelu arian a gedwir wrth gefn ar gyfer tai fforddiadwy.
- Pwysigrwydd cydnabod anghenion y cyhoedd a'r pwysau sydd ar bobl i fedru talu'r Dreth Gyngor, yn arbennig o gofio nad yw cyflogau'n codi.
- Mân-ddaliadau / ased tir sylweddol iawn – hanfodol bod y Cyngor yn rheoli ei stad.
- Posibilrwydd o gynllun peilot lle mae staff asiantaeth yn hyfforddi/mentora staff y Cyngor.

**Yn dilyn trafodaeth faith, PENDERFYNWYD:-**

**(i) nodi'r sylwadau a wnaed gan Aelodau;**

**(ii)** **yn dilyn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2012, bydd y Rheolydd Sgriwtini a'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno i'r Comisiynwyr yn ymgorffori sylwadau'r holl Bwyllgorau Sgriwtini ynghylch y cynigion ar gyfer y gyllideb.**

**(iii)** **bod y Prif Weithredwr yn ymateb, gyda hyn, i bryderon yr Aelodau ynghylch y nifer o ymgynghorwyr/staff asiantaeth a gyflogir gan y Cyngor.**

**(iv)** **bod y Cynghorwyr W. I. Hughes, P. Rogers ac H. Thomas yn cwrdd gyda'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini i drafod materion o bryder mewn perthynas â Stad Mân-ddaliadau'r Cyngor.**

## 4 MONITRO PERFFORMIAD CHWARTEROL

Cyflwynwyd, er trafodaeth, adroddiad gan y Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ym mherfformiad y Cyngor yn erbyn trefniadau cynlluniedig yn y Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011/12 a'r Blaenoriaethau Gwella ar gyfer Llywodraethiad Corfforaethol fel yr amlinellwyd nhw yn adroddiad Chwarter 1 y Comisiynwyr gan ddefnyddio'r strwythur adrodd newydd ac y gofynnwyd amdanynt yn dilyn cyflwyno data perfformiad Chwarter 1 i'r Bwrdd Comisiynwyr. Roedd yr ail Chwarter yn ymwneud â'r tri mis o fis Gorffennaf i Medi 2011.

Dygodd y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen sylw at y ffaith bod y materion gweithredol yn cael eu cyflwyno ar ffurf y Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad newydd. Pwysleisiodd na ddylai materion a gyflwynwyd mewn lliw coch gael eu hystyried fel rhai negyddol ond yn hytrach fel materion yr oedd angen eu cywiro er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas â rheoli risg, ymgysylltiad cymunedol, y swyddogaeth sgriwtini a llunio cynllun busnes 2012.

Ychwanegodd y Swyddog mai'r heriau sylweddol ar gyfer Chwarter 3 oedd y Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant, y Rhaglen Blaenoriaethau Ffordddiadwy, Adroddiadau Adolygiadau Cymheiriaid a diffyg cydymffurfiaeth gyda'r Protocolau Rheolaeth Gwleidyddol.

Dygwyd rhagor o sylw at faterion a godwyd yn y Bwrdd Gwella Corfforaethol lle cafwyd trafodaethau ar:-

- Trefn, cydlyniant ac effeithlonrwydd uwch dîm rheoli'r Cyngor;
- Gwella capasiti, ansawdd a rheolaeth y gwasanaethau cefnogaeth gorfforaethol;
- Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol.

Daeth y Swyddog i ben trwy atgoffa'r Pwyllgor bod blaenoriaethau yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol o Ffynnon (y Teclyn Rheoli Perfformiad Corfforaethol).

Ymatebodd y Swyddog i'r sylwadau isod gan Aelodau:-

- Bod saethau yn nodi'r tueddiad yn cael eu cynnwys yn y tabl a bod paragraffau'n cael ei rhifo mewn adroddiadau i'r Pwyllgor yn y dyfodol;
- Cynnwys mwy o naratif am y meysydd "Coch";
- Eglurhad ynghylch pam oedd Pwynt 5 Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr yn ymddangos yn Wyrdd tra bod Pwynt 8 yn ymddangos yn Goch.
- Y sefyllfa gyfredol ynghylch y system AD/TGCh;
- Cais am hyfforddiant i Aelodau ar y system Ffynnon.
- A oedd Strategaeth Ymgysylltiad y Cyngor yn cynnwys ymgynghori gydag Eiriolwyr Gwasanaeth.

Cyfeiriwyd at rôl y Pwyllgorau Sgriwtini o ran yr adroddiad anffafriol a gafwyd gan AGGCC ar y Gwasanaethau Plant. Amlinellodd Cadeirydd y Pwyllgor Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y camau yr oedd wedi eu cymryd yn y mater hwn. Cydnabu'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) y cyfraniad gwerth chweil a wneir gan Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, nodi sylwadau'r Aelodau a sicrhau y cymerir y camau priodol lle bo angen.**

## 5 PROSIECT CYDWEITHIO YN Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad gan y Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhoi gwybod i'r Aelodau Etholedig am gynigion ar gyfer cydweithio i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol yn y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn). Ffurfiolwyd y berthynas trwy Grŵp Swyddogion Cyfreithiol Gogledd Cymru a chafwyd cyfarfodydd aml rhwng rheolwyr y gwasanaethau cyfreithiol i gynorthwyo i rannu arferion da a gwybodaeth. Roedd y Grŵp wedi gweithio ar bartneriaethau cydweithredol i gyflawni arbedion gwirioneddol ar gyfer pob awdurdod, gan gynnwys Cytundeb Fframwaith ar gyfer prynu cymorth cyfreithiol allanol gan gyfreithwyr a phrynu rhai deunyddiau hyfforddi a chyfreithiol proffesiynol ar y cyd.

Amcanion y prosiect oedd:-

- Darparu strwythur ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a fydd yn darparu gwasanaeth cyfreithiol a fydd yn addas i'r pwrpas, yn gynaliadwy ac o safon uchel i'r chwe awdurdod am y gwerth gorau i'r pwrs cyhoeddus;
- Arbedion effeithlonrwydd;
- Gostwng gwariant yr awdurdodau ar faterion cyfreithiol (yn bennaf trwy wario llai ar gymorth arbenigol allanol);
- Cynnal neu wella boddhad cleientiaid trwy gydol cyfnod y newid.

Dywedodd y Swyddog bod Rheolydd Prosiect (a gyllidir gan Lywodraeth Cymru) wedi ei benodi ac amlinellodd y strwythur ar gyfer y Tîm Prosiect a'r Bwrdd Prosiect. Gobeithir y byddai rhan gyntaf y prosiect yn cael ei lansio yn Ebrill 2012. Fodd bynnag, byddai'r prosiect yn waith tymor hir a fyddai'n anelu at ddatblygu gwasanaeth cyfreithiol cynhwysfawr, gwydn ac o safon uchel ar gyfer y chwe awdurdod lleol.

Roedd yr Aelod Portffolio, y Cynghorydd John Chorlton, yn gwbl gefnogol i adroddiad y Swyddog a phwysleisiodd ei fod yn credu mai cydweithio oedd y ffordd ymlaen ar gyfer Llywodraeth Leol. Roedd y Comisiynydd Gareth Jones yn cytuno â'r sylwadau hynny.

Gofynnwyd am adroddiadau chwarterol ar y prosiect i'r Pwyllgor Sgriwtini. Fodd bynnag, gwnaed sylw na fyddai goblygiadau llawn y prosiect yn hysbys am beth amser ac y dylid asesu'r prosiect dros gyfnod o 2 i 3 blynedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chael adroddiad gwaith ar y prosiect mewn 3 mis.**

## 6 BLAENRAGLEN WAITH AR GYFER SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Adolygwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor a thrafodwyd eitemau i'w cynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf. Cyfeiriodd y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini at y broses pennu cyllideb ac atgoffodd Aelodau y dylid trefnu cyfarfodydd er mwyn medru ymgynghori ar y pwnc hwnnw. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 12 Ionawr 2012 a chynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar 31 Ionawr 2012 i drafod y Cynigion Cyllidebol.

**7 ABSENOLDEB SALWCH**

Cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth – lefelau Absenoldeb Salwch yn yr Awdurdod am y cyfnod Ebrill i Fedi 2011.

Mynegodd yr Aelodau bryder mai eitem er gwybodaeth yn unig oedd hon oherwydd eu bod yn dymuno holi ynghylch rhai o'r ffigyrau. Atgoffodd y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini yr Aelodau fod y Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol wedi cytuno, yn y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn ym mis Medi, i gyflwyno adroddiad pellach ar y mater hwn yn y cyfarfod ym Mawrth 2012.

Cyfeiriwyd at gais a wnaed yn flaenorol am i'r ffigyrau ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gael eu gwahanu fel bod modd cael darlun eglurach o lefelau salwch adrannol. Soniwyd am y gost i bob Adran, yn arbennig mewn perthynas â'r sector addysg lle byddai angen athro/athrawes lanw. Fel yr Aelod Portffolio, cadarnhaodd y Cynghorydd John Chorlton fod y Comisiynydd Byron Davies ac yntau yn rhoi sylw i'r mater hwn ac yn ei gymryd o ddifrif. Fodd bynnag, pwysleisiodd bod angen ymagwedd gytbwys ac na ddylai staff deimlo eu bod yn cael eu herlid am fod yn sâl ac y dylent gael bob cymorth a chefnogaeth i ddychwelyd i'r gwaith.

**CYTUNWYD y byddai'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini yn cysylltu gyda'r Rheolydd AD yn gofyn am i'r adroddiad y bwriadwyd ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mawrth ddod yn hytrach i'r cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhelir yn Ionawr 2012.**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**